

FFOADURIAID A CHEISWYR LLOCHES

Mae'r Beibl yn llawn o hanesion am bobl a orfodwyd i symud ar draws ffiniau, neu a ddewisiodd wneud hynny, o ganlyniad i drychinebau naturiol, camfanteisio, masnachu pobl ac erledigaeth. Caiff Adda ac Efa eu gyrru o'r Ardd. Mae Joseff yn cael ei werthu'n gaethwas ac yna mae ei deulu'n ei ddilyn i'r Aifft. Mae Moses yn arwain plant Israel ar daith hirfaith drwy'r anialwch. Yn y Testament Newydd, fe glywn am Iesu'n mudo deirgwaith: mae'n croesi'r ffin eithaf yn ei ymgnawdoliad; fel plentyn bach, mae'n ffoadur heb hawliau i'r Aifft; ac mae'n dod yn bregethwr ac yn iachawr teithiol. Bob tro, daw cysyniadau cartref, croeso a lloches i'r amlwg. Mae gofal yr eglwysi am geiswyr lloches a ffoaduriaid yn rhannol yn fater o gydnabod ein bod wrth groesawu'r dieithryn yn croesawu Crist ei hun.



Yn y flwyddyn hyd at Fehefin 2019 gwnaed 32,693 cais am loches. Mewn cymhariaeth, yn 2018 gwnaed 161,900 cais yn yr Almaen a 114,500 yn Ffrainc.

Y CYD-DESTUN

Yn y Deyrnas Unedig, mae'r hyn a elwir yn **'amgylchedd gelyniaethus'**

wedi lliwio'r ffordd mae'r wladwriaeth yn darparu cefnogaeth i geiswyr lloches a ffoaduriaid. Bu eglwysi'n gweithio i geisio newid agweddau a pholisïau i gyfeiriad rhai sy'n blaenoriaethu urddas dynol a hawliau dynol.

Gall gymryd misoedd a weithiau flynyddoedd i Swyddfa Gartref y DU benderfynu ynghylch cais am loches. Yn ystod y cyfnod hwnnw, cynigir llety o ansawdd sylfaenol i bobl, derbyniant £37.75 ac ni chaniateir iddynt weithio. Mae hynny er gwaethaf tystiolaeth dda bod gweithio'n bwysig o safbwynt hyrwyddo integreiddio a'i

fod hefyd yn golygu nad oes raid i'r ceisydd lloches fod yn faich ar y trethdalwr.

Mae Llywodraeth y DU yn cadw pobl maent yn dymuno eu hallgludo neu y credant fod perygl iddynt ddianc (mynd o'r golwg) yn y ddalfa, ac nid oes terfyn ar gyfnod y cadw yn y DU. Felly gall pobl gael eu cadw dan glo am gyfnod amhenodol heb eu bod wedi cyflawni unrhyw drosedd na chael eu dyfarnu'n euog o unrhyw beth. Yn ystod sesiwn 2017-2019 yn San Steffan bu ymdrechion trawsbleidiol i geisio gosod cyfyngiad o 28 diwrnod ar gyfer cadw pobl am resymau mewnfydiad ac mae'n debygol iawn y bydd y mater hwn dan sylw eto yn y sesiwn seneddol newydd.



Yn ôl Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid, yn y DU ar ddiwedd 2018 roedd 126,720 o ffoaduriaid, 45,244 o geisiadau am loches o dan ystyriaeth a 125 o unigolion diwladwriaeth – sef tua 0.26% o boblogaeth y DU.

CWESTIYNAU I'W HYSTYRIED

Beth mae croesawu'r dieithryn a charu eich cymydog yn ei olygu i chi yng nghyd-destun yr etholiad hwn?

Pe byddai raid i chi adael eich cartref a'ch gwlad, sut fydddech chi am gael eich trin yn y lle y bydddech yn ceisio diogelwch?

CWESTIYNAU I YMGEISWYR

Beth fyddwch chi'n ei wneud i adfer urddas pobl sy'n ceisio lloches yn y wlad hon?

A fyddwch yn cefnogi:

- cyfyngu cadw pobl dan glo mewn achosion mewnfydo i 28 diwrnod?
- adfer hawl ceiswyr lloches i weithio?